

**CANLLAWIAU ARFERION GORAU AR GYFER FFORYMAU YSGOLION**  
**YNG NGHYMRU**

**Cynnwys**

**CRYNODEB**

**1. RHAGARWEINIAD**

**2. CYFANSODDIAD FFORYMAU YSGOLION**

**2.1 Maint y fforymau**

**2.2 Aelodau o'r ysgol**

**2.3 Ethol aelodau o'r ysgol**

**2.4 Aelodau o'r fforwm nad ydynt yn aelodau o'r ysgol**

**2.5 Manteision cael aelodau nad ydynt yn aelodau o'r ysgol**

**2.6 Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol ar fforymau ysgolion**

**2.7 Penodi aelodau**

**2.8 Penodi ar wahanol adegau**

**2.9 Aelodau sy'n gweithredu fel dirprwyon**

**2.10 Cysylltiadau â fforymau eraill neu adrannau eraill o'r awdurdod lleol**

**3. CYFARFODYDD A THRAFODION FFORYMAU YSGOLION**

**3.1 Ysgrifenyddiaeth fforymau ysgolion**

**3.2 Cadeirydd cyfarfodydd**

**3.3 Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd a'u hamseriad**

**3.4 Presenoldeb mewn cyfarfodydd**

**3.5 Lleoliad y cyfarfodydd**

**4. CYNNAL BUSNES**

**4.1 Rhannu gwybodaeth**

**4.2 Gwefan fforymau ysgolion**

**4.3 Gweithredu'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd**

**4.4 Gweithgorau/Is-weithgorau fforymau ysgolion**

**5. SWYDDOGAETHAU ANSTATUDOL FFORYMAU YSGOLION**

**5.1 Fforymau ysgolion fel fforymau trafod**

**5.2 Hunanwerthusiad fforymau ysgolion**

**5.3 Hyfforddiant ar gyfer aelodau o fforymau ysgolion**

## **Crynodeb**

Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo fforymau ysgolion i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn fwy effeithiol drwy roi enghreifftiau o arferion da. Bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfansoddiad fforymau ysgolion;
- Cyfarfodydd a thrafodion;
- Cynnal busnes; a
- Swyddogaethau anstatudol fforymau ysgolion.

## 1. RHAGARWEINIAD

Yn unol â Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 (y cyfeirir atynt wedi hyn fel y Rheoliadau) roedd hi'n ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru sefydlu Fforwm Ysgol erbyn 15 Rhagfyr 2003. Cawsant eu cyflwyno er mwyn helpu i ddatblygu deialog deallus a hyderus rhwng awdurdodau lleol a'u hysgolion ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb gan gynnwys lefelau cyllido'r ysgolion am y flwyddyn i ddod, y pwysau ar y gyllideb yn y dyfodol, y newidiadau yn y fformiwla gyllido leol ac adolygu contractau/cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau i ysgolion.

Ym mis Awst 2008 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg i gynnal adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fforymau ysgolion yng Nghymru.

Amcanion yr adolygiad:

- asesu pa mor effeithiol yw trefniadau'r fforymau ysgolion presennol ledled yr holl awdurdodau lleol o safbwynt rhanddeiliaid mewn perthynas â'r agweddau statudol ar y fforymau fel y nodwyd yn y rheoliadau a'r elfennau hynny y mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn drostynt er mwyn cael darlun/cymhariaeth glir o effeithiolrwydd fforymau ysgolion ledled Cymru ac er mwyn nodi unrhyw fannau gwan;
- asesu pa mor ddefnyddiol yw'r deialog rhwng y fforymau ysgolion a'r awdurdodau lleol a'r ysgolion o ran cyfrannu at sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall trefniadau cyllido ysgolion yng Nghymru a sicrhau bod y trefniadau hynny yn dryloyw; a
- gwneud argymhellion ar gyfer datblygu a/neu wella fforymau ysgolion yn y dyfodol o ran yr uchod neu unrhyw feysydd eraill.

Cwblhawyd yr adolygiad a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a'r crynodeb gweithredol ym mis Ebrill 2009 a'u rhoi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gellir gweld yr adroddiad ar dudalen:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/schoolfunding/schoolbudgetforum/?lang=en>

Canfu'r adolygiad mai'r farn at ei gilydd oedd bod y fforymau ysgolion yn ddatblygiad positif iawn. Roedd cefnogaeth gref i fodel presennol fforymau ysgolion a thystiolaeth fod fforymau ysgolion yn effeithiol. Canfu'r adolygiad fod fforymau wedi gwella'r deialog a'r cyfathrebu rhwng swyddogion awdurdodau lleol, ysgolion, llywodraethwyr ac aelodau etholedig. Maent wedi helpu'r ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o'r materion ariannol a'r penderfyniadau a wnaed ynghylch cyllidebau ysgolion. Mae'r fforymau wedi gwneud y trefniadau cyllido yn fwy tryloyw ac maent wedi adeiladu ar y berthynas dda rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Awgryma dystiolaeth fod ysgolion yn fwy gwybodus bellach ynghylch sut y caiff penderfyniadau yn ymwneud â'r gyllideb eu gwneud oherwydd gwaith y fforymau ysgolion. Canfu'r adolygiad fod enghreifftiau niferus o arferion effeithiol yn bod ymhlith fforymau ysgolion a chynigiodd 16 o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu a gwella fforymau ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gafwyd o'r adolygiad i wella arferion presennol drwy awgrymu ffyrdd o weithio a rhoi enghreifftiau o arferion gorau.

## **2. CYFANSODDIAD FFORYMAU YSGOLION**

### **2.1 Maint y fforymau**

Dywed y Rheoliadau fod yn rhaid i fforymau ysgolion gael o leiaf 15 aelod i sicrhau nad yw'r aelodaeth yn rhy gyfyng.

Mae maint y fforwm yn bwysig i sicrhau bod sbectrwm eang o gynrychiolwyr o blith yr holl randdeiliaid i hwyluso cynnal trafodaeth gytbwys. Ni ddylai fod yn rhy fawr nac yn rhy anhylaw na bygythiol.

Mater i bob awdurdod lleol fydd penderfynu ar faint y fforwm yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, argymhellir mai **20 aelod** yw maint optimwm fforwm ysgol. Gall hyn amrywio yn unol â maint yr awdurdod lleol.

### **2.2 Aelodau o'r ysgol**

Rhaid i aelodau fforwm yr ysgol gynrychioli'r ysgolion yn yr ardal. Rhaid i fwyafrif aelodau'r fforwm felly ddod o blith 'aelodau o'r ysgol' sydd naill ai'n bennaethiaid neu'n llywodraethwyr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod (nid oes raid i'r niferoedd fod yn gyfartal rhyngddynt). Er mwyn sicrhau bod cynifer o ysgolion â phosib yn cael eu cynrychioli ar y fforwm dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau nad yw cynrychiolwyr sy'n llywodraethwyr yn dod o'r un ysgol.

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau bod aelodau'r ysgol yn cynrychioli ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn gymesur a bod pob categori o ysgol o fewn yr awdurdod yn cael ei gynrychioli. Rhaid i awdurdodau lleol geisio sicrhau hefyd fod o leiaf un aelod o'r ysgol yn rhiant-lywodraethwr. O ddewis ystod eang o gynrychiolwyr a fyddai'n barod i gymryd rhan mewn trafodaeth agored ceid trawstoriad o safbwyntiau am y materion dan sylw a golwg ar effaith y trafodaethau ar ysgolion penodol.

### **2.3 Ethol aelodau o'r ysgol**

Mater i'r awdurdod lleol benderfynu yn ei gylch yw niferoedd aelodau'r ysgol ar y fforwm a'r drefn i'w dilyn wrth benodi. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol am wneud trefniadau i enwebu a chynnal etholiadau gyda'u cymdeithasau llywodraethwyr lleol a'r grwpiau lleol o bennaethiaid er nad oes unrhyw reidrwydd i wneud hynny.

### **2.4 Aelodau'r fforwm nad ydynt yn aelodau o'r ysgol**

Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu p'un ai a ddylid penodi aelodau ar y fforwm nad ydynt yn aelodau o'r ysgol. Ni all mwy na 25% o aelodau'r fforwm fod yn bobl nad ydynt yn aelodau o'r ysgol ac mae'r terfyn hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod ei hun petai'r awdurdod yn penderfynu cael cynrychiolwyr ar y fforwm.

### **2.5 Manteision cael aelodau nad ydynt yn aelodau o'r ysgol**

Mantais cael aelodau ar y fforwm nad ydynt yn yr ysgol yw sicrhau cynrychiolaeth o bob grŵp o randdeiliaid a chael persbectif ehangach ar y problemau sy'n wynebu ysgolion. Mae wedi'i nodi bod fforymau ysgolion yn gweithio'n fwy effeithiol a'u bod yn gallu dylanwadu mwy ar benderfyniadau o gael uwch swyddogion yr awdurdod lleol yn bresennol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell bod uwch swyddogion o'r awdurdod lleol yn mynychu cyfarfodydd o'r fforwm.

## **2.6 Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol ar fforymau ysgolion**

Yr unig gynrychiolwyr o'r awdurdod lleol sydd â'r hawl i bleidleisio ar fforymau ysgolion yw'r rheini sy'n rhan o'r grŵp aelodau nad ydynt yn aelodau o'r ysgol. Yn ogystal ag aelodau o'r gwasanaeth addysg, mae'n bosibl y bydd pob awdurdod am ystyried cael aelod etholedig o'r cyngor a/neu gynrychiolwyr o wasanaethau corfforaethol yr awdurdod ar y fforwm. Byddai manteision hyn yn galluogi aelodau o'r ysgol i gael golwg ar oblygiadau cyfrifoldebau cyllido ehangach awdurdodau lleol ac yn galluogi aelodau etholedig a swyddogion corfforaethol i fod yn ymwybodol o bryderon ysgolion.

## **2.7 Penodi aelodau**

Yn ôl y Rheoliadau rhaid i awdurdodau lleol roi manylion am unrhyw aelodau nad ydynt yn aelodau o'r ysgol a benodir ar fforwm yr ysgol i'w holl ysgolion a gynhelir a hynny o fewn un mis o'u penodi. Fel arfer da, argymhellir hefyd y dylai'r awdurdod roi manylion am holl aelodau'r ysgol sydd ar y fforwm i'r ysgolion a gynhelir. Dylid rhoi gwybod i ysgolion am unrhyw aelodau o'r ysgol neu aelodau nad ydynt yn perthyn i'r ysgol sy'n newydd neu sy'n cymryd lle aelod arall.

Mater i'r awdurdod lleol benderfynu yn ei gylch yw pa mor hir y dylai aelodau wasanaethu ar y fforwm ond argymhellir y dylai cyfnod y penodiad fod rhwng dwy a phedair blynedd.

## **2.8 Penodi ar wahanol adegau**

Nid oes gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol system o benodi i fforymau ysgolion ar wahanol adegau. Mae yna fanteision i'r system fodd bynnag. Mae penodi dros gyfnod hir yn fodd i sicrhau parhad drwy gynnal y lefelau o brofiad ac arbenigedd ar y fforwm. Mae hefyd yn sicrhau bod digon o aelodau ar fforwm yr ysgol petai aelodau eraill yn penderfynu ymddiswyddo cyn diwedd eu cyfnod fel aelod.

## **2.9 Aelodau sy'n gweithredu fel dirprwyon**

Gall fod yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol ystyried cael grŵp o aelodau i weithredu fel dirprwyon i gynrychioli'r holl randdeiliaid. Byddai hyn yn sicrhau y byddai presenoldeb rheolaidd yn y cyfarfodydd, cynrychiolaeth eang a dilyniant petai aelod penodedig o'r fforwm yn methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod. Byddai angen gwneud trefniadau ffurfiol i enwebu aelodau i weithredu fel dirprwyon. Byddai angen i'r aelodau sy'n ddirprwyon gael gwybod am drafodaethau'r fforwm a derbyn papurau a chofnodion pob cyfarfod er mwyn bod yn ymwybodol o'r materion diweddaraf.

## **2.10 Cysylltiadau â fforymau eraill neu adrannau eraill o'r awdurdod lleol**

Petai fforymau ysgolion yn cysylltu â chyrff eraill (e.e. fforymau cyfnodau, fforymau anghenion arbennig ac adrannau eraill o'r awdurdod lleol) byddent yn elwa ar gael cyngor gan arbenigwyr mewn meysydd eraill o waith a gallai hynny wella dealltwriaeth yr aelodau ynghylch materion cysylltiedig eraill. Bydd bod yn ymwybodol o'r materion hyn yn golygu y bydd fforymau ysgolion yn dod yn fwy effeithiol ac yn datblygu eu dealltwriaeth o effaith a goblygiadau'r penderfyniadau a wnânt mewn cyfarfodydd o'r fforwm ysgol.

### **3. CYFARFODYDD A THRAFODION FFORYMAU YSGOLION**

#### **3.1 Ysgrifenyddiaeth Fforymau Ysgolion**

Yr arfer ar hyn o bryd yw bod awdurdodau lleol yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer fforymau ysgolion. Argymhellir y dylai'r trefniant hwn barhau am y gwelwyd ei bod yn ffynhonnell effeithiol a diduedd o gymorth i fforymau ysgolion. Serch hynny, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod llwyth gwaith staff yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei fonitro i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i'w neilltuo i waith y fforymau ysgolion yn ogystal â dyletswyddau eraill ar ran yr awdurdod.

#### **3.2 Cadeirydd cyfarfodydd**

Bydd cadeirydd effeithiol fforwm ysgol yn dylanwadu'n fawr ar rediad y cyfarfod a bydd hefyd yn effeithio ar ddeinameg y cyfarfod. Mae'n bwysig bod y cadeirydd:

- yn ddiduedd,
- yn annog pob aelod i gyfrannu at y drafodaeth,
- yn sicrhau bod pob eitem ar yr agenda wedi'i thrafod,
- yn sicrhau bod cydbwysedd i'r eitemau ar yr agenda er mwyn sicrhau bod y materion a drafodir yn cynrychioli pob un o'r grwpiau ar y fforwm ac nad ydynt yn ffafrio un grŵp yn arbennig, ac
- yn sicrhau bod y cyfarfod yn canolbwyntio ar y materion dan sylw.

#### **3.3 Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd a'u hamseriad**

Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd a'u hamseriad er mwyn hyrwyddo busnes fforymau ysgolion.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell y dylai fforymau ysgolion gyfarfod o leiaf bob tymor ac y dylid trefnu cyfarfodydd mwy rheolaidd i drafod unrhyw faterion o bwys a fydd yn codi. Byddai o fudd i gyfarfodydd o'r fforwm ddilyn cylch ariannol yr awdurdod lleol fel y gall y fforymau ysgolion gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ar yr adegau priodol.

Dylai awdurdodau lleol lunio amserlen ddrafft cyn gynted ag y bo modd er mwyn i aelodau o fforwm yr ysgol wybod pryd yn ystod y flwyddyn y bydd cyfarfodydd yn debygol o ddigwydd. Mae hefyd yn gyfle i aelodau ddweud os na allant fod yn bresennol mewn cyfarfod arbennig oherwydd rhyw ymrwymiad arall ac yn caniatáu digon o amser i ad-drefnu cyfarfodydd er mwyn cael cynifer o'r aelodau ynghyd ag sy'n bosibl.

#### **3.4 Presenoldeb mewn cyfarfodydd**

Mae'n amlwg bod y cyfarfodydd mwyaf effeithiol o fforwm yr ysgol yn digwydd pan fo cynrychiolwyr o bob cefndir yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant o ran y trafodaethau a bod yr aelodau yn gyfarwydd â'r materion dan sylw yn ogystal â sicrhau bod amryw safbwyntiau yn cael eu mynegi yn ystod y drafodaeth.

#### **3.5 Lleoliad y cyfarfodydd**

Mater i bob awdurdod lleol benderfynu yn ei gylch yw ble y dylai cyfarfodydd o'r fforymau ysgolion gael eu cynnal. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd o'r fforymau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau canolog megis swyddfeydd awdurdodau lleol gan fod hynny'n sicrhau bod swyddogion o'r awdurdod lleol ar gael i aelodau o'r fforwm ynghyd â chymorth ychwanegol pan fo angen. Argymhellir y dylid parhau â'r trefniant hwn os gwelir mai dyma'r opsiwn mwyaf ymarferol.

## **4. CYNNAL BUSNES**

### **4.1 Rhannu gwybodaeth**

Bydd fforymau ysgolion effeithiol yn mynd ati i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cyllido ysgolion yn dryloyw drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl eraill ei gweld a'i rhannu ag eraill.

Byddai o fudd i awdurdodau lleol ymgynghori ag aelodau o'r fforwm ysgol i sicrhau bod y math o wybodaeth a roddir i'r ysgol a lefel yr wybodaeth yn briodol neu a oes angen rhagor o wybodaeth.

### **4.2 Gwefan fforymau ysgolion**

Os nad oes un gan yr awdurdod lleol eisoes, argymhellir bod pob awdurdod lleol yn creu tudalen ar y we ar gyfer fforymau ysgolion er mwyn gallu dod o hyd i wybodaeth a rhannu gwybodaeth. Gallai'r wefan gynnwys:

- manylion am yr aelodau gan gynnwys gwybodaeth ynghylch pa ysgolion, sefydliadau neu grwpiau y maent yn eu cynrychioli,
- cofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u cymeradwyo, agendâu a manylion unrhyw faterion y mae'r fforwm neu ei is-grwpiau wrthi'n archwilio iddynt; a
- thudalen adborth/sylwadau.

Bydd hyn yn gyfle i bobl nad ydynt yn aelodau ddysgu am waith fforymau ysgolion ac yn caniatáu iddynt gyflwyno materion trafod a sylwadau i'w cynrychiolwyr drwy wefan benodol.

### **4.3 Gweithredu'n effeithiol yn ystod cyfarfodydd**

Mae llawer o fforymau ysgolion eisoes yn gweithredu'n effeithiol ac yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr i'w haelodau ar adegau priodol. Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru weld yr arfer effeithiol hwn yn cael ei safoni ledled Cymru. Dylai fforymau ysgolion ac awdurdodau lleol ystyried y cynghorion canlynol mewn perthynas ag arferion gorau wrth gynnal eu busnes:

- Dylai dyddiadau cyfarfodydd i'w cynnal yn y dyfodol ymddangos fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o fforwm yr ysgol. Dylai'r dyddiadau y cytunwyd arnynt gael eu hanfon wedyn drwy e-bost at yr aelodau a phobl eraill nad ydynt yn aelodau. Gellid hefyd gynnwys nodyn yn dweud wrthynt am ofyn i'w cynrychiolwyr godi unrhyw fater ar eu rhan.
- Dylai dogfennau ategol gael eu dosbarthu o leiaf saith niwrnod cyn cyfarfod er mwyn rhoi digon o amser i'r wybodaeth gael ei hystyried. Yn ogystal â hyn dylid dosbarthu dogfennau eraill ymhlith pobl nad ydynt yn aelodau drwy anfon e-byst atynt er enghraifft i dynnu eu sylw at wybodaeth ar wefannau ar gyfer fforymau.
- Rhoi'r cyfle i'r aelodau nodi eitemau ar yr agenda.
- Sicrhau bod y cadeirydd yn llywio'r cyfarfod yn effeithiol er mwyn neilltuo amser digonol i drafod yr holl faterion ar yr agenda.
- Darparu adroddiadau cynhwysfawr gan randdeiliaid i'w trafod yn y cyfarfodydd.
- Parodrwydd yr aelodau i drafod pynciau llosg a chynnig barn yn agored ac yn onest.

- Paroddrwydd yr aelodau i wrando ar farn a phryderon aelodau eraill ar y fforwm.
- Darparu cofnod effeithiol a chywir o'r trafodaethau a fu a'r penderfyniadau a wnaed.
- Dosbarthu'r cofnodion ar yr adeg briodol.

#### **4.4 Gweithgorau/is-weithgorau fforymau ysgolion**

Byddai'n fuddiol sefydlu is-weithgorau bach o ran nifer o blith aelodau'r fforwm i gwrdd i drafod materion penodol rhwng cyfarfodydd o'r fforwm ysgol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau drafod materion o bwys yn fwy manwl, er enghraifft materion cyfreithiol ac addysgol penodol, cyn mynd i'r cyfarfod o fforwm yr ysgol. Bydd yn caniatáu amser i aelodau'r fforwm archwilio'r materion hynny gydag unigolion/adrannau eraill ac i drafod unrhyw faterion trawsbynciol a allai godi. Mae corff llai o faint sy'n gweithio gyda'i gilydd yn gallu mynd i'r afael â materion yn fanylach ac yn gyflymach gan ddod â'r materion cryno i'r cyfarfod.

### **5. SWYDDOGAETHAU ANSTATUDOL FFORYMAU YSGOLION**

Tra bo'n hanfodol bod fforymau yn canolbwyntio ar faterion o fewn eu cylch gwaith statudol gall fod yn ddefnyddiol trafod materion ariannol eraill yn eu cyfarfodydd. Gall awdurdodau lleol ymgynghori â'r fforwm fel y gwelant yn dda ynghylch unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chyllido ysgolion a dylent eu hannog i gyfrannu at y trafodaethau strategol (e.e. strwythurau ysgolion a datblygiad rôl y staff cynorthwyol) a fydd yn effeithio ar faterion cyllidebol.

Efallai y bydd awdurdodau lleol am ymgynghori â fforymau ysgolion ynghylch goblygiadau ariannol:

- trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim;
- trefniadau ar gyfer yswiriant;
- trefniadau ar gyfer addysg disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- trefniadau ar gyfer defnyddio unedau cyfeirio disgyblion ac addysg plant heblaw yn yr ysgol;
- addysg y blynyddoedd cynnar;
- dyrannu a defnyddio grantiau penodol; a
- chludiant i'r ysgol.

Efallai y bydd fforymau am drafod materion ariannol eraill yn eu cyfarfodydd megis caffael a phrynu ar y cyd/swmp-brynu.

#### **5.1 Fforymau ysgolion fel fforymau trafod**

Mae llawer o awdurdodau lleol yn elwa drwy ddefnyddio fforymau ysgolion i brofi syniadau a safbwyntiau ar faterion gwahanol cyn mynd ati i ymgynghori'n ffurfiol. Mae'n bosib y bydd awdurdodau lleol am drafod materion megis strwythurau ysgolion a'r polisi addysg yn gyffredinol gydag ysgolion yn ogystal â materion ariannol. Maent yn gyfrwng gwerthfawr i awdurdodau lleol gael ymateb y grŵp i faterion penodol a chaiff aelodau o fforwm yr ysgol olwg ar y newidiadau sydd ar fin eu cyflwyno a allai effeithio ar eu hysgolion hwy a chyfle i drafod y materion hyn a chynnig awgrymiadau.

#### **5.2 Hunanwerthusiad fforymau ysgolion**

Er nad yw'n gyffredin iawn ar hyn o bryd, argymhellir bod fforymau ysgolion yn gwerthuso eu hunain. Bydd yn gyfle i fforymau ysgolion adlewyrchu'r arferion cyfredol ac ystyried sut i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. (Gallai casglu data hunanwerthuso oddi wrth rai sy'n



aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau gael ei ddatblygu drwy arolygon ar-lein a gallai gael ei fwydo i mewn i ymarferiadau casglu data eraill gan awdurdodau lleol.)

### **5.3 Hyfforddiant ar gyfer aelodau o fforymau ysgolion**

I wella pa mor effeithiol yw aelodau o fforymau ysgolion byddai o fudd i awdurdodau lleol wneud archwiliad o anghenion hyfforddiant yr aelodau. Byddai'r hyfforddiant yn datblygu dealltwriaeth aelodau o'r fforwm ynghylch data a materion ariannol er mwyn medru cyfrannu'n llawn at drafodaethau.